

Scroll down for English Version

18.5.20

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Gobeithiwn eich bod chi a'ch teuluoedd yn iach ac yn cadw'n ddiogel yn ystod y cyfnod anodd yma. Ysgrifennaf atoch er mwyn amlinellu trefniadau ar gyfer hwyluso cyfnod pontio i ddisgyblion Blwyddyn 6 a fydd, wrth reswm, yn edrych ychydig yn wahanol eleni i'r arfer. Ein blaenoriaeth, er gwaethaf y cyfnod sydd ohoni, yw sicrhau cyfnod pontio mor llyfn â phosib i'ch plant.

Llangrannog

Yn anffodus, derbyniwyd e-bost gan Wersyll yr Urdd Llangrannog yn cadarnhau na fydd modd rhedeg ein cwrs pontio blynyddol eleni. Mae hyn yn siom i ni gyd ond ein blaenoriaeth, wrth gwrs, yw diogelwch eich plant a staff ein hysgolion. Os ydych chi wedi gwneud unrhyw daliadau i'ch ysgolion cynradd, fe fydd modd derbyn ad-daliad, cysylltwch a'ch ysgolion cynradd i drefnu hyn os gwelwch yn dda.

Gwisg Ysgol

Mae'n bosib eich bod yn ymwybodol fod gennym wisg ysgol newydd o fis Medi. 'Bergoni' yn Llansamlet sy'n cyflenwi'r wisg ac fe fydd angen i chi brynu siwmpwr a thei swyddogol yr ysgol oddi wrth 'Bergoni' yn unig. Fe allwch brynu trowsus/sgert ddu, crys gwyn ac esgidiau du o unrhyw siop o'ch dewis. Gweler y polisi gwisg atodedig os gwelwch yn dda.

Y Ffordd Ymlaen

Rydym yn awyddus i'ch sicrhau bod cynlluniau ar y gweill i baratoi disgyblion Bl 6 ar gyfer trosglwyddo atom ym Mryn Tawe. Mae'r disgyblion wedi ymweld â'r ysgol eisoes ond y bwriad dros yr wythnosau sydd i ddod yw gwneud trefniadau pellach i dawelu meddyliau Bl 6 cyn dechrau gyda ni yn swyddogol. Dyma rhai o'n cynlluniau:

- Darparu cyfres o glipiau fideo e.e. staff yr ysgol yn cyflwyno'u hunain, taith o gwmpas yr ysgol, trefn y dydd a'r bysys a.y.b.
- Darparu cyfle i chi fel rhieni a disgyblion holi cwestiynau drwy eu danfon atom, ac fe wnewn ni eu hateb
- Cynnal sesiwn fel dosbarth gyda thiwtor eich plentyn dros 'Teams'
- Y posibilrwydd o gynnal wythnos bonito, gyda chymorth y 6ed dosbarth, yn yr Ysgol, fis Medi, gyda'r pwyslais ar gynnig cyfleoedd i'r disgyblion gymdeithasu a chymysgu er mwyn ffurfio perthnasoedd newydd
- Cynnal taith dros nos i Lanmadog (os yw amgylchiadau yn caniatáu)

Rydym yn awyddus i'ch argyhoeddi fod eich plentyn yn flaenoriaeth i ni a gwnewn ein gorau glas i gefnogi disgyblion Blwyddyn 6 drwy'r cyfnod yma. Gobeithiwn y bydd y broses bontio, er yn wahanol i'r drefn arferol, yn parhau i baratoi'ch plant ar gyfer y cam cyffrous nesaf yn eu bywyd ysgol.

Yn gywir,
Mrs Angharad Stephens
(Arweinydd Dysgu Bl 7 a Chydlynnydd Pontio)



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: yg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODD WYR
MEWN POBL** | Aur



18.5.20

Dear Parent/Guardian,

I hope that you and your family are safe and well during this difficult time. I am writing to outline arrangements to ease the transition process for Year 6 pupils, which will obviously be slightly different this year due to the current health crisis. Our priority, despite this current situation, is to ensure that your child's transition to Bryn Tawe is as smooth as possible.

Llangrannog

Unfortunately, we have received confirmation from the Urdd Camp in Llangrannog that this year's transition course will not go ahead. This is disappointing for everyone but our priority is the safety of your children and school staff. If you have made any payments to your primary schools, you will be refunded, please contact your child's primary school to arrange this.

School Uniform

You may be aware that Bryn Tawe has a new uniform from September. The only supplier of the new official school jumper and tie is 'Bergoni' in Llansamlet. You can buy black trousers, white shirt and black shoes from any shop of your choice. Please see the attached School uniform policy.

The Way Ahead

We want to reassure you that plans are being made to prepare Year 6 pupils for the transition to Bryn Tawe. The pupils have visited the school once already, but we intend to alleviate their concerns before officially starting with us. Some of our plans are:

- To prepare a series of video clips e.g. some school staff introducing themselves to Year 6, a tour of the school, times of the day and bus arrangements
- We'd like to offer the opportunity for parents and pupils to ask questions by sending them to us
- A 'Teams' session as a class with your child's form teacher
- The possibility of holding a 'Transition Week' in September with the help of the 6th form, with the emphasis on socialising and building new relationships.
- An overnight stay in Llanmadog (if circumstances allow)

We want to reassure you that your child is our priority and we will do our very best to support Year 6 pupils through this period. We hope that the transition process, despite being different this year, will prepare your children for the next exciting step in their school life.

Yours Faithfully,
Mrs Angharad Stephens
(Leader of Learning for Year 7 and Transition Co-ordinator)



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: vgg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWYR
MEWN POBL

Aur

